Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan
**Llywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# Gofal Cymdeithasol Cymru

## Ein Cynllun Strategol 2022-27

### Ein gweledigaeth

I wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal a chymorth yng Nghymru ar gyfer plant, oedolion a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

### Ein diben

Rydyn ni'n darparu arweinyddiaeth ac arbenigedd cenedlaethol ym maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Rydyn ni'n arwain ar rheoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, gwasanaethau a gwelliant a data ac ymchwil i wella gofal.

## Beth rydyn ni am ei gyflawni dros y pum mlynedd nesaf

Mae'n bwysig ein bod ni'n glir am yr hyn rydyn ni am ei gyflawni a'r gwahaniaethau a'r newidiadau yr hoffem eu gweld rhwng nawr a 2027.

Mae'r newidiadau wedi eu gosod yn yr wyth canlyniad cenedlaethol canlynol:

| | |
|---|---|
| Llesiant gwell ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar | Gweithlu cofrestredig sydd â hyder y cyhoedd |
| Gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n fawr | Gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar sydd â chymwysterau, gwybodaeth a sgiliau addas gyda'r gwerthoedd, yr ymddygiad a'r ymarfer cywir |
| Gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar sy'n denu, recriwtio a chadw pobl â'r gwerthoedd cywir i ddiwallu anghenion y rhai sydd angen gofal a chymorth | Ymarfer a pholisi gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar arloesi, ymchwil a data o'r radd flaenaf, a mathau eraill o dystiolaeth |
| Gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n ymgorffori ac yn darparu dulliau gofal a chymorth sy'n seiliedig ar gryfderau | Gwasanaethau effeithiol, cynaliadwy o ansawdd uchel a ddarperir gan Gofal Cymdeithasol Cymru |

Mae ein cynllun pum mlynedd yn nodi'n fanylach pam fod pob canlyniad yn bwysig, sut y byddwn yn dangos newid, a ble y byddwn yn canolbwyntio ein hegni a'n hymrwymiad i weithio gyda chi i wireddu ein gweledigaeth.

Ewch i [www.gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/beth-rydym-yn-ei-wneud](www.gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/beth-rydym-yn-ei-wneud) i ddarganfod mwy.



## Gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru mewn ffigyrau

**Un o'r cyflogwyr mwyaf yng Nghymru**

| Cyfanswm a gyflogir mewn gofal cymdeithasol i oedolion a phlant | Nifer y bobl sy'n gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant | Cyfanswm a gofrestrwyd |
|---|---|---|
| **91,000** | **17,000** | **35,261** |

**Nifer y gweithwyr a gofrestrwyd fesul grŵp**

| | | |
|---|---|---|
| Rheolwyr gofal cartref | Gweithwyr gofal cartref | Gweithwyr cymdeithasol |
| **975** | **20,003** | **6,566** |
| Rheolwyr gofal plant preswyl | Gweithwyr gofal plant preswyl | Myfyrwyr gofal cymdeithasol |
| **311** | **3,066** | **679** |
| Rheolwyr cartrefi gofal i oedolion | Gweithwyr cartrefi gofal i oedolion | * cofrestru'n orfodol o fis Hydref 2022 |
| **1,333** | **2,306*** (allan o tua 20,000 o weithwyr) | |

**Cyfraniad i'r economi:**

Cyfraniad uniongyrchol o £1.2bn y flwyddyn a chyffredinol o £2.2bn*

*Ffigurau o adroddiad ar y sector gofal cymdeithasol oedolion a gyhoeddwyd yn 2018

# Gofal Cymdeithasol Cymru – beth rydyn ni'n ei wneud

**Datblygu'r gweithlu** fel bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i ddiogelu, grymuso a chefnogi'r rhai sydd angen cymorth

**Pennu safonau** ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth, gan eu gwneud yn atebol am eu gwaith

**Gweithio ag eraill** i wella gwasanaethau

**Gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil a data** i gael tystiolaeth o beth sy'n llwyddo

**Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd** a sefydliadau eraill

**Rhannu arferion da** gyda'r gweithlu fel y gallant ddarparu'r ymateb gorau